


Briff Ymchwil

# Y Gyfres Cynllunio: 02 - Polisi cynllunio lleol

Awdur: **Elfyn Henderson**

Dyddiad: **Gorffennaf 2016**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Elfyn Henderson**
Dyddiad: **Gorffennaf 2016**
Rhif Papur: **16-041**
Clawr blaen: **Llun gan shirokazan. Dan drwydded Creative Commons**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

**: 0300 200 6317**
**:Elfyn.Henderson@Cynulliad.Cymru**
**: Cynulliad.Cymru/Pigion**
**: @SeneddYmchwil**
**: Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Y Gyfres Cynllunio: 02 - Polisi cynllunio lleol

Canllaw cryno ar bolisi cynllunio lleol yng Nghymru yw'r papur briffio hwn. Mae'n disgrifio sut y caiff cynlluniau datblygu lleol eu paratoi ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o fabwysiadu'r cynlluniau hyn ledled y wlad. Mae hefyd yn disgrifio'r categori newydd o "Gynlluniau Datblygu Strategol" a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, ac yn cynnwys rhestr ddefnyddiol o ffynonellau i gael rhagor o wybodaeth.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


1. Pwy sy'n gyfrifol am bolisïau cynllunio lleol? ... 1
2. Beth yw Cynllun Datblygu Lleol? ... 1
3. Sut y caiff Cynllun Datblygu Lleol ei baratoi? ... 1
   - Datblygu sail dystiolaeth ... 1
   - Cytundeb darparu ... 2
   - Dogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol cyn-adneuo ... 2
   - Cynllun adneuo ... 2
   - Cyflwyno cynllun ac archwiliad annibynnol ... 2
   - Adroddiad yr Arolygydd ... 2
   - Mabwysiadu a monitro ... 3
   - Pwerau Gweinidogion Cymru ... 3
4. Beth yw Cynllun Datblygu Strategol? ... 3
5. Ffynonellau allweddol ... 4
   - Llywodraeth Cymru ... 4
   - Cymorth Cynllunio Cymru ... 4
   - Y Porth Cynllunio ... 4
   - Y Gwasanaeth Ymchwil ... 4

Atodiad – Crynodeb o gynnydd Cynlluniau Datblygu Lleol ... 5

# 1. Pwy sy'n gyfrifol am bolisïau cynllunio lleol?

Caiff polisïau cynllunio lleol yng Nghymru eu llunio gan awdurdodau cynllunio lleol.  Y 22 awdurdod unedol a'r tri awdurdod parc cenedlaethol yw'r awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru, ac fe'u rhestrir yn yr atodiad.  Mae gan awdurdod cynllunio lleol yr hawl gyfreithiol i gyflawni swyddogaethau cynllunio lleol, gan gynnwys datblygu polisïau defnyddio tir a rhoi caniatâd cynllunio.  Caiff polisïau cynllunio lleol eu nodi mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

# 2. Beth yw Cynllun Datblygu Lleol?

Rhoddodd *Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004* ofyniad statudol ar bob awdurdod cynllunio lleol i greu Cynllun Datblygu Lleol.  Mae Cynllun Datblygu Lleol yn nodi cynigion a pholisïau ar gyfer defnyddio tir lleol yn y dyfodol a dyma yw'r brif ddogfen ar gyfer cynllunio gwaith datblygu yng Nghymru, sy'n cymryd lle'r system flaenorol o gynlluniau datblygu unedol.  Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn para am gyfnod o 10 i 15 mlynedd a dylai adlewyrchu polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru.

Bydd *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015* yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (gweler ein papur briffio ar bolisi cynllunio cenedlaethol) wrth ddatblygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol yn y dyfodol.  Cyflwynwyd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn lle Cynllun Gofodol Cymru a bwriedir ei gymeradwyo yn nhymor yr hydref 2019.  Bydd Deddf 2015 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y Cynllun Datblygu Strategol, os oes un ar waith ar gyfer yr ardal (gweler adran 04 isod).

Pan fyddant wedi'u mabwysiadu (eu cwblhau), mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn disodli'r holl gynlluniau datblygu blaenorol ac fe'u defnyddir yn sail i benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio.  O gymharu â chynlluniau datblygu unedol, dylai Cynlluniau Datblygu Lleol fod yn fyrrach, a dylent gynnwys y gymuned yn fwy. Dylent hefyd gymryd llai o amser i'w cwblhau.

Mae holl awdurdodau cynllunio lleol Cymru naill ai yn y broses o ddatblygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol neu eisoes wedi eu mabwysiadu.  Ar 1 Mehefin 2016, roedd 18 o'r 25 awdurdod cynllunio lleol wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol.  Mae Gwynedd ac Ynys Môn yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd.  Disgwylir i awdurdodau cynllunio lleol gwblhau'r broses mewn tua phedair blynedd, ond nid oes amserlen benodol wedi'i gosod.  Mae cynnydd yr awdurdodau cynllunio lleol o ran paratoi'r cynlluniau wedi'i nodi yn yr Atodiad.

# 3. Sut y caiff Cynllun Datblygu Lleol ei baratoi?

Dyma gamau'r broses o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol:

## Datblygu sail dystiolaeth

Mae *Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004* yn ei gwneud yn ofynnol i Gynllun Datblygu Lleol fod yn 'gadarn', a rhaid profi hynny drwy archwiliad annibynnol.  Er mwyn sicrhau 'cadernid', gofynnir i'r awdurdod cynllunio lleol gasglu a dangos tystiolaeth ynghylch materion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd perthnasol.  Mae'r broses hon yn dechrau drwy nodi'r prif faterion ac amcanion y mae angen i Gynllun Datblygu Lleol fynd i'r afael â hwy.  Sonnir am y broses hon fel un sydd â'i llwyth gwaith ar y dechrau'n deg, gan fod y rhan fwyaf o'r gwaith o ddatblygu tystiolaeth ac ymgynghori â'r gymuned yn cael ei wneud ar gam cynnar cyn llunio'r cynllun drafft.

## Cytundeb darparu

Mae angen i'r awdurdod cynllunio lleol ddrafftio 'cytundeb cyflawni', sy'n cynnwys amserlen ar gyfer llunio Cynllun Datblygu Lleol. Bydd gan y cytundeb hefyd gynllun cynnwys cymunedau sy'n amlinellu'r broses i grwpiau, unigolion neu ddatblygwyr sydd â diddordeb mewn cyfrannu at y cynllun. Yna mae gofyn i'r awdurdod cynllunio lleol sicrhau bod y cytundeb cyflawni ar gael yn rhwydd i'w archwilio gan y cyhoedd.

## Dogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol cyn-adneuo

Bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gwahodd datblygwyr, tirfeddianwyr a'r cyhoedd i gyflwyno ceisiadau ar gyfer safleoedd y gellid eu cynnwys i'w datblygu o'r newydd neu eu hailddatblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol. Gelwir y safleoedd hyn yn safleoedd ymgeisiol a chânt eu hasesu er mwyn penderfynu a ddylid eu cynnwys.

Yna caiff y dogfennau cynllunio lleol cyn-adneuo eu paratoi. Bydd y rhain yn nodi'r strategaeth a ffefrir, yr opsiynau ar gyfer ardaloedd a safleoedd datblygu, gweledigaeth ar gyfer ardaloedd, a gwerthusiad cynaliadwyedd cychwynnol. Yna cynhelir ymgynghoriad chwe wythnos. Mae modd i unigolion a phawb sydd â diddordeb edrych ar y dogfennau a rhoi sylwadau ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol. Gall y sylwadau hyn gynnwys cynigion ar gyfer ystyried ardaloedd neu safleoedd amgen i'w datblygu. Mae rhwymedigaeth ar awdurdodau cynllunio lleol i ystyried pob sylw a chynnig, ac yna i baratoi adroddiad ymgynghori. Mae'r adroddiad hwn yn dynodi pwy sydd wedi cyflwyno sylwadau am ddogfennau cyn-adneuo, y prif faterion a godwyd a beth sydd wedi dylanwadu ar ddatblygiad y cynllun.

## Cynllun adneuo

Yna, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn paratoi'r cynllun adneuo, sef drafft llawn o'r cynllun datblygu lleol. Yn y cynllun hwn, ceir y strategaeth a ffefrir ar gyfer yr ardal. Bydd adroddiad ymgynghori a gwerthusiad cynaliadwyedd diwygiedig yn cyd-fynd ag ef. Pan fydd y cynllun adneuo yn barod, bydd cyfnod ymgynghori pellach o chwe wythnos yn caniatáu i sylwadau newydd gael eu cyflwyno.

Mae modd i'r sylwadau hynny gynnwys cynigion ar gyfer safleoedd datblygu newydd neu safleoedd datblygu diwygiedig. Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol gyhoeddi'r holl sylwadau sy'n dod i law. Cyfrifoldeb y rhai sy'n hyrwyddo safleoedd newydd neu safleoedd diwygiedig yw dangos bod yr arfarniadau priodol wedi'u cwblhau er mwyn sicrhau bod y safleoedd hynny'n gydnaws â'r Cynllun Datblygu Lleol a gaiff ei lunio.

## Cyflwyno cynllun ac archwiliad annibynnol

Bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori terfynol, sy'n crynhoi'r materion pwysicaf a godwyd. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio (ar ran Llywodraeth Cymru) wedyn yn archwilio'r adroddiad, y sylwadau adneuo, y cynllun adneuo a'r adroddiad gwerthuso cynaliadwyedd terfynol.

Nod yr archwiliad yw sicrhau bod y cynllun yn 'gadarn', a bod safbwyntiau'r holl bobl sydd wedi gwneud sylwadau wedi cael eu hystyried. Mae tri chategori i'r profion 'cadernid': gweithdrefn, cysondeb a chydlyniad/effeithiolrwydd. Cynhelir rhan o'r broses archwilio yn gyhoeddus, ac mae gan yr holl wrthwynebwyr hawl i ymddangos a lleisio barn.

## Adroddiad yr Arolygydd

Bydd yr arolygydd yn cyhoeddi adroddiad yn nodi unrhyw newidiadau y dylid eu gwneud i'r cynllun, gan esbonio pam mae angen y newidiadau hyn. Bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn rhwym i farn yr arolygydd.

### Mabwysiadu a monitro

O fewn wyth wythnos i gael adroddiad yr Arolygydd, mae'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol terfynol. O'r dyddiad y caiff ei fabwysiadu, mae'r Uchel Lys yn rhoi chwe wythnos i wrthwynebwyr herio'r cynllun, ond dim ond ar sail camweinyddu yn hytrach nag ar sail cynnwys. Ar ôl mabwysiadu'r cynllun, mae angen i'r awdurdod cynllunio lleol anfon adroddiad monitro blynyddol at Lywodraeth Cymru. Yna, dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Cynllun Datblygu Lleol o leiaf bob pedair blynedd i sicrhau ei fod yn parhau i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Gall adolygiadau o'r fath arwain at addasu'r Cynllun Datblygu Lleol neu gael cynllun newydd.

### Pwerau Gweinidogion Cymru

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau eang mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Lleol, gan gynnwys rhoi cyfarwyddiadau i awdurdod addasu ei gynllun mewn modd penodol cyn ei fabwysiadu, galw cynllun i mewn i Lywodraeth Cymru benderfynu arno, rhoi cyfarwyddiadau i awdurdod beidio â mabwysiadu cynllun os ystyrir bod argymhellion yr arolygydd yn gwrthdaro â pholisi cenedlaethol a rhoi cyfarwyddiadau y dylid addasu cynllun neu gael cynllun newydd yn ei le. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd gyfarwyddo dau neu fwy o awdurdodau cynllunio lleol i gydweithio er mwyn llunio Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd.

## 4. Beth yw Cynllun Datblygu Strategol?

Nid oes unrhyw drefn statudol ar gyfer cynllunio rhanbarthol yng Nghymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015* yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ddynodi 'ardaloedd cynllunio strategol' sy'n fwy nag awdurdodau cynllunio lleol unigol ac i 'baneli cynllunio strategol' gael eu sefydlu ar gyfer yr ardaloedd hynny. Bydd y paneli hyn yn cynnwys aelodau etholedig o'r awdurdodau cynllunio lleol sy'n rhan o'r ardal. Os caiff panel ei sefydlu ar gyfer ardal, yna bydd yn llunio Cynllun Datblygu Strategol a fydd yn rhan o 'gynllun datblygu' ffurfiol yr ardal honno. Bydd Cynllun Datblygu Strategol yn ymdrin â materion trawsffiniol fel tai a thrafnidiaeth. Bydd angen i Gynllun Datblygu Strategol ystyried y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol hefyd (gweler ein papur briffio ar bolisi cynllunio cenedlaethol).

Bydd yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol mewn ardaloedd cynllunio strategol ystyried y Cynllun Datblygu Strategol wrth lunio eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Bydd yn rhaid iddynt greu fersiwn 'ysgafn' o Gynllun Datblygu Lleol ar gyfer y rhan o'u hardal sydd wedi'i chynnwys yn y Cynllun Datblygu Strategol.

Awgrymodd Llywodraeth flaenorol Cymru efallai na fydd angen mwy na thair ardal cynllunio strategol, a fyddai'n cwmpasu rhannau penodol o Gymru yn unig (Caerdydd, Abertawe a choridor yr A55).

# 5. Ffynonellau allweddol

## Llywodraeth Cymru

Mae **adran gynllunio** gwefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- Y polisi cenedlaethol ar Gynlluniau Datblygu Lleol: ***Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 8, Ionawr 2016) Pennod 2 - Cynlluniau Datblygu Lleol (PDF 159KB)***;
- Canllawiau technegol ar baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol: ***Llawlyfr Ar Gynlluniau Datblygu Lleol - 2il Argraffiad (2015)***;
- Taflen ar gyfer y cyhoedd: ***Cynllunio'ch Cymuned: Canllaw i Gynlluniau Datblygu Lleol;***
- Tabl yn dangos cynnydd o ran mabwysiadu cynlluniau datblygu (fel ar 31 Mawrth 2015)**: Y cynnydd wrth fabwysiadu cynlluniau datblygu**; a
- Map o Gymru yn dangos yr ardaloedd a gwmpesir gan gynlluniau datblygu (ym mis Ionawr 2016): **Map cynlluniau datblygu**.

## Cymorth Cynllunio Cymru

Sefydliad elusennol yw **Cymorth Cynllunio Cymru** sy'n helpu unigolion a chymunedau **cymwys** i gymryd rhan fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae'n cynnig gwasanaethau cynghori, gan gynnwys llinell gymorth.

## Y Porth Cynllunio

Y **Porth Cynllunio** yw adnodd rheoliadau cynllunio ac adeiladu Llywodraeth y DU. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y system gynllunio yng Nghymru, er bod peth o'r cynnwys yn berthnasol i Loegr yn unig.

## Y Gwasanaeth Ymchwil

Mae papurau briffio eraill a luniwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ynghylch cynllunio ar gael ar ein gwefan: **Y Gwasanaeth Ymchwil**

# Atodiad – Crynodeb o gynnydd Cynlluniau Datblygu Lleol

Daw'r wybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru, **y cynnydd wrth fabwysiadu cynlluniau datblygu yng Nghymru a Map cynlluniau datblygu**, a gwefannau'r awdurdodau cynllunio lleol, ar 1 Mehefin 2016.

| Awdurdod cynllunio | Cynnydd y Cynllun Datblygu Lleol |
|---|---|
| **Cyngor Sir Ynys Môn** | Yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd â Gwynedd. Dyddiad targed ar gyfer mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol: gwanwyn 2017 |
| **Cyngor Gwynedd** | Yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd ag Ynys Môn. Dyddiad targed ar gyfer mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol: gwanwyn 2017 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Hydref 2013 |
| **Cyngor Sir Ddinbych** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Mehefin 2013 |
| **Cyngor Sir y Fflint** | Dyddiad targed ar gyfer mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol: Chwefror 2018 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** | Dyddiad targed ar gyfer mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol: Rhagfyr 2016 |
| **Cyngor Sir Powys** | Dyddiad targed ar gyfer mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol: Rhagfyr 2016 |
| **Cyngor Sir Ceredigion** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Ebrill 2013 |
| **Cyngor Sir Penfro** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Chwefror 2013 |
| **Cyngor Sir Gâr** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Rhagfyr 2014 |
| **Dinas a Sir Abertawe** | Dyddiad targed ar gyfer mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol: Rhagfyr 2016 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Ionawr 2016 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Medi 2013 |
| **Cyngor Bro Morgannwg** | Dyddiad targed ar gyfer mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol: Medi 2016 |

| | |
|---|---|
| **Cyngor Dinas Caerdydd** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Ionawr 2016 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Mawrth 2011 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Mai 2011. **Cyhoeddwyd adolygiad ym mis Ebrill 2016** a oedd yn argymell y dylid paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Tachwedd 2010. **Mae Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei baratoi**, y dyddiad targed ar gyfer ei fabwysiadu yw: Hydref 2017 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Tachwedd 2012 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Rhagfyr 2013 |
| **Cyngor Sir Fynwy** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Mawrth 2014 |
| **Cyngor Dinas Casnewydd** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Ionawr 2015 |
| **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Gorffennaf 2011 |
| **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Medi 2010. **Mae Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei baratoi** |
| **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Rhagfyr 2013 |